**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CRAFFU - GWASANAETHAU CYMUNED**
Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned a gynhaliwyd Dydd Llun, 15 Ionawr 2024 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned canlynol yn bresennol:-

Y Cynghorydd J Bonetto (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd D Evans
Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd N H Morgan
Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd D Parkin
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd T Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms R Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Ms S Nowell, Pennaeth Materion Trawsnewid
Mr N Pilliner, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd B Harris, Aelod o'r Cabinet

### 25 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Jones ac A Ellis.

### 26 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant.

### 27 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 yn rhai cywir.

**28 DOLENNI YMGYNGHORI**

Aeth yr Aelodau ati i gydnabod yr wybodaeth oedd wedi'i darparu trwy'r dolenni ymgynghori mewn perthynas ag ymgynghoriadau agored, ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r materion hynny y mae'r awdurdod lleol yn cynnal ymgynghoriadau ynglŷn â nhw.

**29 YMGYSYLLTU AG AELOD O'R CABINET DDWYWAITH Y FLWYDDYN**

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau i'r Pwyllgor a rhoddodd ddiolch i'r Aelod am ymuno. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i Aelodau a rhoddodd wybod iddyn nhw fod gyda nhw gyfle i graffu ar unrhyw faterion gyda deiliad y portffolio sy'n gyfrifol am Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau a sicrhau bod y mecanweithiau priodol yn eu lle i graffu'n effeithiol ar yr Adain Weithredol.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â phroses sefydlu bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel a gofynnodd Aelod am ymgysylltu a sicrhau y byddai mesurau ymgysylltu â'r gymuned yn parhau yn y strwythur newydd. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod grŵp ffocws amlasiantaeth yn ei le ar hyn o bryd a'i fod yn gweithio tuag at roi Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg rhanbarthol ar waith o 1 Ebrill 2024. Mae disgwyl i adroddiad cynnydd gael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 23 Chwefror ac i Bwyllgor Craffu RhCT – Gwasanaethau Cymuned (Trosedd ac Anhrefn) ar 28 Chwefror.

Gofynnodd Aelod a gafodd y potensial i un Awdurdod Lleol lywio'r Bartneriaeth ei ystyried ac aeth yr Aelod o'r Cabinet ati i gydnabod bod hyn yn bryder sydd wedi cael ei godi, a chydnabod y risgiau sy'n ymwneud â'r mater yma. Cafodd Aelodau wybod y bydd y Bartneriaeth yn cydnabod bod rhaid i unrhyw adolygiad o'r strwythurau ddarparu strwythur rhanbarthol integredig addas sy'n sicrhau bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd lleol yn gynhwysfawr ac yn fanwl, a hynny er mwyn cadw ymreolaeth ac atebolrwydd lleol ym mhob Awdurdod Lleol unigol.
Felly, bydd y Bartneriaeth yn sicrhau bod pob Awdurdod Lleol yn cael ei fonitro a'u bod nhw'n atebol am eu cyfraniadau. Pan ofynnwyd cwestiynau pellach i'r Aelod o'r Cabinet am risg un Awdurdod Lleol yn llywio'r Bartneriaeth, ychwanegodd na ddylai datblygiad partneriaeth strategol ranbarthol gael effaith niweidiol ar y Cynghorau ac asiantaethau priodol hynny sy'n llwyddo i roi mentrau diogelwch lleol ar waith yn eu cymunedau. Bydd Cylch Gorchwyl newydd y Bartneriaeth Cymunedau Diogel yn cynnwys pwysigrwydd cynnal trefniadau cymunedau diogel lleol a'r trefniadau craffu lleol presennol sydd ar waith ar gyfer Cymunedau Diogel.

Cafwyd trafodaeth ar y Strategaeth Toiledau Lleol a gofynnodd Aelod a yw'r Cyngor yn gwneud digon i gyfathrebu â thrigolion mewn perthynas ag argaeledd cyfleusterau a'u lleoliadau. Siaradodd yr Aelod am fandaliaeth mewn toiledau cyhoeddus a gofynnodd beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ati i gydnabod y broblem o ran fandaliaeth a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y Cyngor a'r heriau ariannu gwaith atgyweirio. O ran cyfathrebu, dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod cynllun wedi'i ddatblygu gyda meysydd gwasanaeth eraill a bod tudalen we Cyngor RhCT yn cael ei datblygu i roi gwybod am leoliadau toiledau cyhoeddus ledled y fwrdeistref. Bydd potensial creu ap hefyd yn cael ei ystyried. Bydd hefyd modd dod o hyd i doiledau

cyhoeddus trwy sticer logo. Tynnodd yr Aelod o'r Cabinet sylw at leoliadau mannau newid sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.
Gofynnodd Aelod a oes gwybodaeth ar gael o ran sut effaith y mae'r strategaeth yn ei chael ar grwpiau gwahanol ac a oes gwybodaeth ar gael o ran cynnydd ymgysylltu â busnesau lleol yng nghanol trefi i'w hannog nhw i adael i'r cyhoedd ddefnyddio eu cyfleusterau, a hefyd effaith nifer yr ymwelwyr â chanol trefi. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ati i gydnabod bod angen cyfleusterau mwy amrywiol ac er nad oedd y ffigurau ar gael yn y cyfarfod, dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'n eu rhannu nhw â'r Aelod yn uniongyrchol. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet na ddylai heriau y mae unigolion yn eu hwynebu eu rhwystro nhw rhag defnyddio toiledau a chadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet fod hyn yn fater fydd yn cael ei drafod ymhellach. Mewn perthynas ag ymgysylltu â busnesau lleol, cafodd Aelodau wybod y bydd Swyddogion Carfan Datblygu'r Gymuned a Charfan Ffyniant a Datblygu yn ymgysylltu â busnesau'n fuan, gyda chanolbwynt cychwynnol ar fusnesau canol tref Pontypridd yn barod am yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gofynnodd Aelod beth sy'n cael ei wneud i ddarparu cyfleusterau y tu allan i ganol trefi a gofynnodd am gyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ati i gydnabod y gostyngiad yn nifer y cyfleusterau sydd ar gael ledled y fwrdeistref wrth dynnu sylw Aelodau at y ffaith nad yw darpariaeth toiledau lleol i'r cyhoedd yn ofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am yr her o ran ariannu cyfleusterau newydd yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni ac aeth ati i gydnabod yr awgrym o gysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyfleoedd ariannu sydd ar gael ar gyfer hyn.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i drafod Adolygiad Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth a gofynnodd Aelod i'r Aelod o'r Cabinet i ba raddau y mae'n ystyried achosion o beidio â chydymffurfio gan landlordiaid tai amlfeddiannaeth yn broblem, yn enwedig yn ward Trefforest, ac a yw'r Cyngor yn gwneud digon i sicrhau bod camau gorfodi yn eu lle ar gyfer y rheiny sy'n peidio â chydymffurfio'n fwriadol. Atebodd yr Aelod o'r Cabinet gan nodi bod achosion o beidio â chydymffurfio gan landlordiaid yn achosi problem sylweddol i'r Cyngor ac i'n trigolion, a hynny am nifer o resymau. Mae'r Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer 2024 yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd i'r Cyngor liniaru'r effaith negyddol yma a chymryd camau gorfodi yn erbyn yr unigolion hynny sy'n peidio â chydymffurfio'n fwriadol.

Gofynnodd Aelod a yw'r Cyngor yn rhagweld gostyngiad posibl yn nifer y tai amlfeddiannaeth yn y dyfodol gyda thystiolaeth bod nifer y myfyrwyr yn Nhrefforest wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Nododd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n anodd rhagweld y farchnad rhentu preifat. O ystyried y sefyllfa ariannol sydd ohoni gyda'r argyfwng costau byw, effaith diwygio lles, newidiadau i fudd-daliadau tai a'r galw mawr am lety llai, mae tai amlfeddiannaeth yn dod yn opsiynau mwy hyfyw i lawer o drigolion. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr, mae tai amlfeddiannaeth yn parhau i gael eu hystyried yn ddewis gan weithwyr proffesiynol ifainc sy'n newydd i'r farchnad gyflogaeth.

Siaradodd Aelod arall am y pryderon a gafodd eu codi'n flaenorol am safonau byw anniogel mewn tai amlfeddiannaeth a gofynnodd am eglurhad y byddai'r broses arolygu trwy'r strategaeth yn rhoi hyder i Aelodau fod safonau diogelwch yn cael eu bodloni. Roedd gan yr Aelod o'r Cabinet hyder yn swyddogion y Cyngor sy'n mynd i'r afael â phroblemau diogelwch a hynny fel blaenoriaeth uchel.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Aelod o'r Cabinet am ymuno â'r cyfarfod ac i'r Aelodau am eu cwestiynau. **PENDERFYNWYD**:

1. Craffu ar yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau mewn perthynas â materion a gafodd eu trafod a'u cytuno gan y Cabinet, ac unrhyw benderfyniadau allweddol a gafodd eu gwneud, yn ystod y cyfnod rhwng 11 Mai 2023 a 15 Ionawr 2024;

2. Nodi unrhyw feysydd sy'n codi o'r materion hynny a bennwyd yn ystod y cyfnod yma y mae'r Pwyllgor yn dymuno cynnal gwaith craffu pellach arnyn nhw, a hynny'n rhan o'r diwygiadau i raglen waith y Pwyllgor sydd wedi'i chyhoeddi, mewn perthynas ag Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau.

**30 STRATEGAETH TIR HALOGEDIG**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu bwrpas yr adroddiad er mwyn i Aelodau rag-graffu ar y manylion yn yr adroddiad a rhoi sylwadau'r Pwyllgor i'r Prif Swyddog ac Aelod perthnasol o'r Cabinet cyn iddyn nhw drafod y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig arfaethedig ar gyfer RhCT, trwy'r broses penderfyniadau dirprwyedig.

Amlinellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai gefndir y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig a chafodd Aelodau wybod y cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei strategaeth gychwynnol ym mis Ionawr 2004 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd Aelodau wybod mai bwriad Strategaeth Archwilio Tir Halogedig y Cyngor oedd cyflawni'r blaenoriaethau canlynol o ran tir halogedig posibl:
a. Diogelu iechyd a lles pobl;
b. Annog ailddatblygu tir sydd wedi'i ddifrodi/ailddefnyddio tir llwyd;
c. Annog adfer gwirfoddol;
ch. Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill i ddiogelu derbynyddion eraill;
d. Ymgysylltu â chymunedau lleol i gael gwybod am eu blaenoriaethau;
dd. Sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Nododd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod y Cyngor yn hanesyddol wedi ymchwilio i nifer o safleoedd strategol allweddol a'u hadfer nhw mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a rhanddeiliaid eraill, a rhoddodd enghreifftiau megis Glofa a Golosgfa Coed-elái a'r Safle Phurnacite yn Abercwmboi. Mae gwaith adfer nifer o safleoedd eraill wedi cael ei sicrhau trwy'r broses gynllunio. Mae system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) sydd wedi'i datblygu gan yr adran Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd wedi bod yn hynod werthfawr yn ystod y cam ymgynghori cynllunio o ran nodi tir o'r fath. Cafodd Aelodau wybod bod materion tir halogedig yn aml yn gymhleth a bod delio â safleoedd halogedig posibl yn anodd, yn enwedig oherwydd nad oes unrhyw/llawer o wybodaeth ar gael yn aml.

Cafodd Aelodau wybod hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu rhaglen ariannu gyfalaf ar gyfer ymchwilio i dir halogedig a/neu adfer tir halogedig ers 2010. Yn ogystal â hyn, does gan y Cyngor ddim cyllideb gyfalaf benodol ar gyfer ymchwilio i dir halogedig a/neu adfer tir halogedig. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor wedi defnyddio ei adnoddau i ganolbwyntio ar sicrhau trefniadau ymchwilio ac adfer tir effeithiol yn rhan o'r broses Rheoli Datblygu, a hynny trwy

bennu amodau ar gyfer caniatâd cynllunio lle bo angen. Mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal cyn datblygu ac maen nhw'n ceisio nodweddu natur benodol unrhyw gysylltiadau llygru posibl a sicrhau eu bod nhw'n cael eu hadfer yn briodol.

Aeth Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai ati i gyflwyno agweddau allweddol ar y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig ac ar yr adolygiad mwyaf diweddar. Cafodd Aelodau wybod bod proses adolygu'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig wedi cael ei defnyddio i asesu effeithiolrwydd y strategaeth wreiddiol o ran bodloni gofynion deddfwriaeth Rhan 2A a chanllawiau statudol. Cafodd yr adolygiad llawn cyntaf o'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2008. Yn 2016, cafodd y strategaeth ei diwygio i ystyried y newid i'r canllawiau statudol yn 2012. Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cafodd yr amserlenni yn y Strategaeth Tir Halogedig wreiddiol eu hystyried yn fympwyol felly roedd angen eu hailddiffinio nhw wrth ystyried profiad, galw am adnoddau a newidiadau i ddarpariaeth ariannu. O ganlyniad i hyn, mae pob adolygiad o'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig wedi ailddiffinio targedau archwilio er mwyn darparu rhaglen realistig a chyraeddadwy. Tynnwyd sylw Aelodau at Atodiad 1 a oedd yn cynnwys copi o'r Strategaeth Archwilio Tir Halogedig sydd wedi'i hadolygu fwyaf diweddar o fis Rhagfyr 2023.

Esboniodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod tynnu cyllid grant cyfalaf yn ôl wedi effeithio'n sylweddol ar allu Awdurdodau Lleol Cymru i ymchwilio'n ffurfiol i dir halogedig posibl. O ganlyniad i hyn, defnyddiodd y Cyngor ei adnoddau i ganolbwyntio ar ddarparu mewnbwn i'r broses Rheoli Datblygu, lle mae amodau'n cael eu hychwanegu at ganiatâd cynllunio sy'n golygu bod angen cynnal gwaith ymchwilio/adfer. Mae hyn yn gofyn am amser sylweddol Swyddog ond mae'n darparu mecanwaith amgen effeithiol ar gyfer delio â halogiad trwy sicrhau bod y tir yn addas i'w ddefnyddio a sicrhau adferiad ar sail wirfoddol. Does dim cyfleoedd ariannu ar gael ar hyn o bryd a bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'i adnoddau trwy'r broses Rheoli Datblygu.

Tynnwyd sylw Aelodau at Atodiad 2 a amlinellodd enghreifftiau i ddangos defnydd amodau tir halogedig i sicrhau bod tir gyda ffynhonnell bosibl o halogiad yn RhCT yn cael ei ailddatblygu'n ddiogel.

Cyfeiriodd Aelod at ddŵr mynyddoedd / glofeydd yn llifo i lawr ochrau mynyddoedd gan beryglu tai a gofynnodd am eglurhad mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol. Cadarnhaodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoleiddiwr cenedlaethol dyfroedd a reolir, sy'n golygu y byddai dŵr sy'n llifo i lawr ochrau mynyddoedd yn dod o dan ei gylch gwaith. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod gwybodaeth ar gael o ran cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru gyda phryderon.

Nododd Aelod fod y strategaeth yn gynhwysfawr ac yn dechnegol ac wedi'i hysgrifennu'n glir.

Cyfeiriodd Aelod arall at y cynnydd yn nifer yr achosion o lifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a gofynnodd a oes cysylltiadau digonol rhwng hyn a Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor. Hefyd gofynnodd a oes protocolau yn eu lle ar gyfer asesu perygl unrhyw halogiad yn ystod llifogydd. Aeth Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai ati i gydnabod effaith y newid yn yr hinsawdd a pherygl llifogydd ar ddatblygiadau a nododd y byddai rhaid i'r materion yma fod yn rhan o'r asesiadau risg ar gyfer datblygiadau fyddai'n cael eu hadolygu gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â'r Cyngor.

Cyfeiriodd Aelod ar yr wybodaeth yn yr adroddiad o ran cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd arbennig lle mae'r mwyaf o halogiad, a gofynnodd a yw'r Cyngor yn hapus gyda threfniadau craffu o ran gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ac a oes digon o waith monitro yn cael ei gynnal o ystyried cyfrifoldeb y Cyngor i drigolion yn yr ardaloedd lleol. Esboniodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod yn rheoleiddiwr ar gyfer y safle pan fo ardal yn cael ei datgan yn safle arbennig, a bod y Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â fe. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb dros adfer yn y dyfodol ac mae'n parhau'n safle arbennig hyd nes bod gwaith adfer wedi'i ddatrys.

Tynnodd Aelod sylw at yr wybodaeth o ran y gofrestr gyhoeddus, gan nodi ei bod hi ar gael ar ffurf copi caled yn unig. Gofynnodd yr Aelod a oes cynlluniau i'w chyhoeddi ar-lein, a hynny ar gyfer tryloywder. Nododd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai y byddai rhaid gwneud ymholiadau pellach mewn perthynas â hyn ond byddai angen cydnabod faint o wybodaeth sydd ar gael ar-lein a chyfaddasrwydd cyhoeddi'r wybodaeth yma ar-lein.

Gofynnodd Aelod arall a ddylid cynnal asesiad risg ychwanegol yn ystod llifogydd sylweddol er mwyn bod yn hyderus nad yw unrhyw achosion o halogi wedi digwydd. Esboniodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai y byddai hyn yn rhan o waith y carfanau rheoli perygl llifogydd a rhoddodd drosolwg o'r camau gweithredu wedi'u cymryd ers effaith Storm Dennis a gwaith adrannau eraill y Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Aeth Aelodau ati i gydnabod y pwynt yma ac roedden nhw o'r farn y byddai'n fuddiol gofyn i garfan rheoli perygl llifogydd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r mater yma.

Aeth Aelod ati i gydnabod yr wybodaeth yn yr adroddiad sy'n nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer ymchwilio i dir halogedig mwyach a sut mae'r Cyngor yn dibynnu ar y broses Rheoli Datblygu a Chynllunio. Tynnodd yr Aelod sylw at y ffaith bod yr adroddiad hefyd yn nodi bod rhaid i'r Cyngor, a hynny o dan ran 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, archwilio ei ardal o ran tir halogedig a gofynnodd a yw'r diffyg o adnoddau'n effeithio ar allu'r Cyngor i wneud hyn ac a yw dull RhCT yn gyson ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Amlinellodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai y broses archwilio, gan roi sicrwydd i Aelodau fod tir yn cael ei archwilio ond mae hyn yn cael ei wneud trwy'r broses rheoli datblygu. Ychwanegodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai y nododd y Cyngor yr ystod amrywiol o safleoedd pan gafodd y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig gychwynnol ei datblygu a nododd nad oes modd i'r Cyngor fynd ati'n rhagweithiol i gwblhau gwaith archwilio ond mae gwaith ochr yn ochr ag adran Gynllunio'r Cyngor yn sicrhau bod risgiau'n cael eu hystyried. Rhoddodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai wybod i Aelodau fod yr holl Awdurdodau Lleol yn yr un sefyllfa mewn perthynas â chyllid a'u bod nhw'n gyson o ran defnyddio rheoli datblygu.

Gofynnodd Aelod sut mae'r strategaeth yma'n cyfrannu at gynlluniau ehangach y Cyngor megis y Cynllun Corfforaethol a Strategaeth Lleihau Carbon y Cyngor. Nododd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai ei bod hi'n bwysig, o ran cynaliadwyedd, ystyried yr effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol a sicrhau bod tir yn ddiogel. Rhoddwyd eglurhad mai prif ganolbwynt y Strategaeth Archwilio Tir Halogedig yw delio â risgiau defnydd blaenorol tir. Ychwanegodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai fod yna gysylltiadau â lleihau carbon o ran

y broses ddatblygu a sicrhau nad oes unrhyw achosion o halogi. Cafodd Aelodau wybod bod rhagor o drefnau rheoli ar waith o ran trwyddedau amgylcheddol a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch er mwyn rheoli llygredd.

Gofynnodd Aelod sut mae modd i'r Cyngor fod yn sicr nad yw'r dull yma'n peryglu ein cymunedau o ystyried y diffyg o adnoddau sydd ar gael. Rhoddodd Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Tai sicrwydd i Aelodau fod y Cyngor yn gweithredu ar unrhyw gwynion sy'n dod i law gan y gymuned ac ar unrhyw risgiau a nodir yn y gymuned.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i roi sylwadau'r Pwyllgor i'r Prif Swyddog a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet.

- Gofyn i Garfan Rheoli Perygl Llifogydd y Cyngor am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r ymholiadau am lifogydd sylweddol.

## 31 OEDI YN Y LLWYBR AT OFAL

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion yr adroddiad i roi gwybodaeth allweddol o ran Oedi yn Achos Llwybrau Gofal ar gyfer trigolion Rhondda Cynon Taf rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2023 i Aelodau. Hefyd rhoddodd wybodaeth am effaith bresennol pwysau'r gaeaf ar ryddhau o'r ysbyty a gwybodaeth mewn perthynas â defnydd byrddau gwyn electronig a rhannu gwybodaeth cleifion i gefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn bresennol yn y cyfarfod.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr gefndir oedi wrth ryddhau o'r ysbyty fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad gan esbonio bod rhagdybiaethau blaenorol am oedi wrth ryddhau o'r ysbyty yn aml yn canolbwyntio ar gapasiti cyfyngedig ym maes gofal cymdeithasol fel y prif reswm, ond mae cymysgedd o ffactorau eraill all achosi oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, gan gynnwys heriau o ran manteisio ar wasanaethau eraill y GIG yn y gymuned.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod data o ran oedi trosglwyddo ysbyty wedi'i gasglu ar dri achlysur gwahanol, sef:
• Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC) a oedd ar gael rhwng 2004 a mis Chwefror 2020.
• Adroddiadau gwybodaeth reoli ar oedi wrth ryddhau o'r ysbyty rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2023 (wedi'u llunio a'u dilysu gan y Byrddau Iechyd yn unig).
• Oedi yn Achos Llwybrau Gofal a gyflwynwyd o fis Ebrill 2023.

Cafodd Aelodau wybod bod gofyniad ar bob Bwrdd Iechyd i fesur Oedi yn Achos Llwybrau Gofal trwy gyfrifiad ciplun misol ar drydydd dydd Mercher y mis ac, ar ôl dilysu a cheisio cytundeb gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid llywodraeth leol ehangach, i roi'r wybodaeth yma i Lywodraeth Cymru.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod yna amrywiaeth eang o resymau dros Oedi yn

Achos Llwybrau Gofal a thynnwyd sylw Aelodau at y rhestr lawn yn Atodiad 1.

Esboniwyd yr wybodaeth dadansoddi data i Aelodau a thynnodd y Cyfarwyddwr sylw at y duedd tuag i lawr gyffredinol yn nifer yr adroddiadau o oedi ar gyfer Rhondda Cynon Taf dros y flwyddyn hyd yn hyn. Er gwaethaf bod â'r boblogaeth fwyaf, mae cyflawniad ar y cyfan yn dda o'i gymharu â gweithgarwch Cwm Taf Morgannwg ehangach.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr drosolwg o'r wybodaeth yn nhablau 2a-d yn yr adroddiad ac esboniodd fod y 4 prif reswm dros oedi yn Rhondda Cynon Taf yn adlewyrchu themâu tebyg ledled Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill.

Esboniodd y Cyfarwyddwr fod Bwrdd Rhyddhau o'r Ysbyty Integredig wedi'i sefydlu er mwyn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawniad rhyddhau o'r ysbyty ledled ardal y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys sicrhau bod achosion o Oedi yn Achos Llwybrau Gofal yn cael eu hadrodd yn effeithiol, ac yn bwysicach oll, roi cynllun gwella ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n peri'r risg fwyaf o ran oedi. Cafodd Aelodau drosolwg o'r meysydd sy'n peri'r risg fwyaf ar gyfer ardal Cwm Taf Morgannwg a'r cynlluniau gweithredu.

Esboniodd y Cyfarwyddwr y sefyllfa bresennol o ran data Oedi yn Achos Llwybrau Gofal a sut mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflymu'r broses o ryddhau o'r ysbyty, yn enwedig o Ysbytai Acíwt Brenhinol Morgannwg a'r Tywysog Siarl yn rhan o Strwythur Gorchymyn Aur.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybodaeth ychwanegol y gofynnodd Aelodau amdani mewn cyfarfod blaenorol mewn perthynas â defnydd byrddau gwyn electronig ar wardiau ysbytai a rhannu gwybodaeth claf i gefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty. Cafodd Aelodau drosolwg o bwrpas y byrddau gwyn mewn ysbytai a buddion eu cyflwyno yn ôl y Bwrdd Iechyd.

Rhoddwyd sicrwydd i Aelodau o ran trosglwyddo data trwy ddefnyddio'r byrddau gwyn, ac amlinellodd y Cyfarwyddwr y dulliau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Gofynnodd Aelod am y data mewn perthynas ag anghytundebau a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli. Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod anhawster rheoli'r achosion yma ond amlinellodd y broses o weithio ar y cyd â staff a rheolwyr wardiau ysbytai yn y Bwrdd Iechyd i drafod gyda theuluoedd er mwyn deall y rhesymau dros yr anghydfodau a cheisio dod o hyd i ddatrysiad gyda'r canlyniad gorau i'r claf. Cadarnhaodd Swyddog Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg y broses o drafod gyda theuluoedd a rhoddodd drosolwg o waith sy'n cael ei gynnal yn y Bwrdd Iechyd o ran polisi a gweithdrefn rhyddhau o'r ysbyty integredig. Cafodd Aelodau fanylion Rhaglen 'Optimise' sydd â'r bwriad o gefnogi staff ysbytai gyda chymorth ymarferol o ran rhyddhau o'r ysbyty yn effeithiol. Tynnodd y Swyddog sylw at sut mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn y polisi rhyddhau o'r ysbyty newydd sydd wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys canllawiau o ran rhyddhau cleifion cyndyn.

Gofynnodd Aelod arall a oes data ar gael o ran pa mor hir y mae pobl wedi bod yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod yr Oedi yn Achos Llwybrau Gofal yn giplun o ddata ar ddiwrnod unigol a nad yw'n darparu gwybodaeth y tu ôl i'r rhif. Ailbwysleisiodd Swyddog Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg fod yr wybodaeth dim ond yn berthnasol i adeg benodol, a does

dim modd gwybod pa mor hir y mae claf wedi bod yn wynebu oedi gan y gall rhesymau newid o ddydd i ddydd. Nododd y Swyddog fod y Bwrdd Iechyd yn datblygu dangosfwrdd llif a rhyddhau o'r ysbyty fydd yn rhoi trosolwg cyffredinol o hyd a gwerth amser claf yn yr ysbyty.

Gofynnodd Aelod arall gwestiwn am y broses asesu cyn rhyddhau o'r ysbyty a gofynnodd am ragor o wybodaeth am argaeledd lleoedd mewn cartrefi gofal yn y Fwrdeistref Sirol. Amlinellodd y Cyfarwyddwr y broses asesu cyn rhyddhau o'r ysbyty ac aeth ati i gydnabod bod achosion lle mae oedi yn digwydd ond mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu yn y cyfamser ar y cyfan. Aeth y Cyfarwyddwr ati i gydnabod bod argaeledd lleoedd mewn cartrefi gofal yn amrywio sy'n gallu arwain at gyfnodau lle mae rhai cartrefi'n llawn. Cafodd Aelodau wybod bod yna adegau lle mae pobl yn cael lle mewn cartrefi gofal y tu allan i'r sir ond pwysleisiodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Cyngor yn sicrhau bod y rhain yn lleoliadau dros dro ac yn ceisio symud yr unigolion yn y dyfodol pe byddai'n well gan deuluoedd hynny.

Gofynnodd yr Aelod am ffïoedd cartrefi gofal a'r gwahaniaeth rhwng y lefelau o ffïoedd a bennwyd gan y Cyngor a'r rhai a bennwyd gan gartrefi gofal preifat. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod ffïoedd cartrefi gofal yn cael eu pennu ym mholisi'r Cyngor bob blwyddyn a'u bod nhw'n dilyn polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer taliadau preswyl. Nododd y Cyfarwyddwr fod modd i gartrefi gofal preifat bennu eu ffïoedd eu hunain ar gyfer pobl sy'n ariannu eu gofal eu hunain a chyfeiriodd at ddylanwad y farchnad ar bennu'r lefelau hynny. Cydnabyddir bod costau cartrefi gofal wedi cynyddu ond cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y Cyngor yn gweithio gyda darparwyr lleol i adolygu eu costau gofal er mwyn ystyried ffïoedd y Cyngor yn unol â hynny.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- Craffu ar gynnwys yr adroddiad
- Gofyn am ddiweddariadau pellach mewn perthynas â data yn dilyn pwysau'r gaeaf er mwyn monitro tueddiadau.

## 32 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddogion am ymuno â'r cyfarfod ac am eu hadroddiadau a chyflwyniadau cynhwysfawr. Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Aelodau am gyfrannu at y cyfarfod ac am eu cwestiynau.

## 33 MATERION BRYS

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm**

**Y Cynghorydd J Bonetto**
**Cadeirydd.**